DRAFT

**<u>COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN</u>**

**<u>SIAMBR Y CYNGOR AR 23AIN MAWRTH 2023</u>**

(Roedd y cyfarfod hwn yn disodli'r un a ohiriwyd ar y 13eg Mawrth oherwydd problemau technoleg)

Yn bresennol: Y Cynghorwyr: Rory Francis (Cadeirydd)

Alun Jones

Mark Thomas

Eifiona Davies

Marc Lloyd Griffiths

Morwenna Pugh

Glyn Daniels (ar Zoom)

Linda Ann Jones (ar Zoom)

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Rhys Roberts, CellB (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Dref

Glyn Lasarus (ar Zoom – gadawodd am 7.30pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ifor Roberts a chan Cai Gruffydd, Swyddog Ariannol Dros Dro.

Cyn mynd ymlaen i drafod y materion ar yr agenda, mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor Tref, gydymdeimlad gyda'r Cynghorydd Glyn Daniels a'i deulu ar eu profedigaeth yn ddiweddar.

Codwyd mater brys cyn y brif raglen, ar ôl y cyfarfod safle anffurfiol a gynhaliwyd yn y Parc yn y prynhawn, a fynychwyd gan y Cynghorwyr Mark Thomas, Morwenna Pugh ac Eifiona Davies. Roedd nifer o faterion brys wedi dod i'w sylw gan gynnwys cyflwr peryglus y golff gwirion, peryglon baglu ar y llwybr, dŵr yn casglu ar ran o'r parc a darnau metel pigog bygythiol.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar yr amrywiol bwyntiau a gwnaed nifer o awgrymiadau, gan gynnwys cau y Parc dros dro. Nododd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod gan y Cyngor Tref ddyletswydd o ofal, pe byddai anffawd yn digwydd yn y Parc. Yn y diwedd, cytunwyd bod y Swyddog Cynnal a Chadw yn mynd yno drannoeth i wneud y gwaith mwyaf brys, a bod Clerc y Dref yn cysylltu gydag ef i drefnu hynny.

**2. Yr Heddlu**

Adroddwyd nad oedd unrhyw sylwadau gan yr Heddlu eto y mis hwn. Cafwyd trafodaeth eang ar faterion GDPR, camerâu teledu cylch cyfyng y Cyngor Tref a'r ffaith bod yr Heddlu yn gwybod y rheolau GDPR ond ddim bob amser yn glynu at y drefn, cliniaduron gan gyn-gynghorwyr. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas iddo ofyn i'r Cadeirydd riportio'r Cyngor Tref i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â'r ffaith bod y Cyngor Tref yn torri rheolau GDPR, a dywedodd y Cadeirydd iddo ffonio'r Comisiynydd ac mai barn y Swyddfa honno oedd nad oedd angen i'r Cyngor Tref wneud hynny ar hyn o bryd, ond diwygio ei drefniadau TCC. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas ei fod eisiau cael cofnodi'r ffaith ei fod wedi gofyn am gael copi ar ddu a gwyn o'r hyn a ddywedodd y Comisiynydd Gwybodaeth a bod y Cadeirydd wedi gwrthod hynny.

Teimlai'r Cynghorwyr nad oedd yr Heddlu yn rhoi statws dyladwy i'r Cyngor Tref o ran ymgysylltu, ac y dylai fod rhywun yn mynychu'n rheolaidd i ddiwddaru'r aelodau. Awgrymwyd bod y Cyngor Tref yn rhoi'r gorau i'r system yn llwyr, ac efallai yn cynnig y cyfarpar i'r Heddlu. Dywedodd y Cynghorydd Alun JOnes nad oedd modd cymryd penderfyniad heno gan nad oedd y mater hwn ar y rhaglen a chynigiodd y Cynghorydd Glyn Daniels ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones y dylid rhoi'r eitem ar agenda'r CYngor yn y dyfodol, a chytunodd pawb gyda hynny.

3. Cyflwyniad gan Rhys Roberts, Cell Bar Clwb Clinc a'r gais ariannol

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Dafis fuddiant personol yn yr eitem, ac aeth i ystafell aros Zoom yn ystod y drafodaeth.

Rhoddodd Rhys Roberts gyflwniad i'r aelodau ar yr hyn yr oedd y Clwb Clinc yn ei wneud er budd pobl ifanc y fro, a'r ffaith ei fod wedi parhau drwy'r cyfnod clo pan nad oedd unrhyw ddarpariaeth arall ar gael iddyn nhw. Roedd y clwb yn garreg gamu i'r celfyddydau yn gyffredinol ac wedi gwneud hnny am ugain mlyned bellach. Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi llwyddo wrth fynd drwy'r amrywiol brosiectau ac wedi cael swyddi gyda rhai ohonynt yn gweithio i GellB nawr, ac fel is-diwtoriaid yno. Dtwedodd bod 20 aelod bob wythnos, bod tiwtoriaid yn costio £17k y flwyddyn, a rhentu lle yn costio £7k, gan ddweud ei fod yn werth am arian. Roedd sesiynau yn denu 60-90 y tro.

Holodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths pam nad oedd CellB yn gallu sefyll ar ei draed ei hun bellach, ar ôl bod yn gweithredu am 20 mlynedd, ac yn creu incwm. Esboniodd Rhys bod popeth yn cael ei ail-fuddsoddi yn y fenter. Dywedodd y Cynghorydd Glyn Daniels ei fod yn cefnogi'r hyn roedd CellB yn ei wneud a'i fod yn dda i bobl ifanc yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd Linda Ann Jones nad oedd yn deall i ddechrau sut roedd y peth yn gweithio ac nad oedd yn gwerthfawrogi'r hyn roedd yn ei wneud, ond ei bod bellach yn deall sut roedd y fenter yn gweithredu, a'i gwerth i bobl ifanc.

Pwysleisiwyd mai cyflwyniad oedd hwn, ac nid cais ffurfiol am gyfraniad, ac y byddai angen cyflwyno cais arall yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Ail-ymunodd y Cynghorydd Dafydd Dafis â'r cyfarfod am 8.10pm.

**4. Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 13 Chwefror 2023.**

DRAFFT

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd cofnod rhif 11611/2/23 yn gywir, a'i fod wedi dweud bod angen cadw recordiad pob cyfarfod "am byth". Cynigiodd y Cynghorydd Alun Jones ac eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y cofnod yn cael ei newid i ddarllen "am byth" a chytunodd pawb gyda hynny.

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 27 Chwefror 2023.**

Cynigiodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

**Pwyllgor Staffio 27 Chwefror 2023**

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

**5. Cyllid**

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod adroddiad ariannol mis Chwefror yn gywir a chytunodd pawb.

**6. Cais Ariannol RYgbi'r Urdd, Ysgol y MOelwyn**

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd am gymryd rhan yn y drafodaeth. Cyngiodd y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y Cyngor Tref yn gofyn i'r Ysgol gyflwyno cais ffurfiol i ail-ddefnyddio'r arian, a chytunodd pawb.

**7. Cais Cynllunio – Y Ddôl**

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh nad oedd y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais a chytunodd pawb.

**8. Datblygiadau**

Diffibrilwyr – Nododd y Cynghorwyr Morwenna Pugh a Marc Lloyd Griffiths bod angen hyfforddiant pellach ar y cynghorwyr. Awgrymwyd bod y Cynghorydd Morwenna Pugh yn holi aelodau lleol o'r gwasanaeth iechyd a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd swydd ffurfiol o archwilio'r offer bob tri mis a chynigiodd y Cynghorydd Alun Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis a chytunodd pawb gyda hyn.

**9. Ysgoloriaeth Patagonia**

Dywedodd y Cynghorydd Rory Francis ei fod am wneud datganiad i'r wasg.

**10. Swydd y Dirprwy Glerc**

Datganodd y Cynghorydd Glyn Daniels fuddiant personol yn yr eitem ac aeth i ystafell aros Zoom yn ystod y drafodaeth.

Trafodwyd y sefyllfa a nododd y Cynghorydd Mark Thomas bod angen i gyflog y Dirprwy fod yn 75% o gyflog y Clerc. Cynigiodd y Cynghorydd Alun Jones ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y swydd yn cael ei gwneud yn un llawn amser a chytunodd pawb, a hysbysebu'r swydd gydag Un Llais, Cyngor Gwynedd, indeed.com, y Ganolfan Waith a Facebook am gyfnod o fis, a bod y Clerc yn dosbarthu copi o swydd-ddisgrifiad presennol i bob cynghorydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y Clerc yn gofyn i Paul Egan o Un Llais am gyngor ar hysbysebu'r swydd a chytunodd pawb.

Ail-ymunodd y Cynghorydd Glyn Daniels â'r cyfarfod am 9pm ac ataliwyd y Rheolau Sefydlog er mwyn gallu parhau gyda'r cyfarfod heibio'r ddwy awr.

**11. Parcio ar Heol Wynne**

Trafodwyd y sefyllfa barcio beryglus, yn enwdig o amgylch y modurdy, ond nodwyd hefyd nad oedd llinellau melyn yno. Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Mark Lloyd Griffiths bod llythyr yn cael ei anfon at yr Heddlu a'r Cyngor Sir a chytunodd pawb.

**12. Rhybudd o GYnnig gan y Cynghorydd Dafydd Dafis**

Ei bod yn bwysig bod y Cyngor Tref yn cael mewnbwn i'r ymgynghriad ar y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr a bod angen bod yn wyliadwrus.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.04pm

DRAFT